Creu **bwced chwilod**

Beth yw pwrpas bwced gyda thyllau ynddo? Bod yn gartref da i ddihirod bach. Mae pob math o chwilod yn byw mewn pren a dail wedi pydru. Gall bwced chwilod fod yr union beth i'w helpu i oroesi.

Byddwch angen

- Bwced blastig
- Cyllell grefft
- Cerrig
- Rhisgl coed
- Rhaw
- Boncyffion

1 Gofynnwch i oedolyn dorri tyllau crwn 3cm yn ochrau a gwaelod y fwced. Dyma ddrysau i'r chwilod.

2 Palwch dwll o faint y fwced gan roi'r pridd wrth ymyl.

3 Claddwch y fwced yn y twll. Rhowch gerrig mawr yn ei gwaelod, gan ychwanegu boncyff neu ddau i sefyll ynddi. Bydd chwilod yn dodwy eu wyau yn y boncyffion a'r lindys yn bwyta'r pren pydredig. Hmm, blasus, ynte?

4 Llenwch y fwced gyda rhisgl coed hyd tua 10cm o'r brig, yna rhowch haen o bridd drosti.

5 Rhowch foncyff neu ddau arall ar y brig ac yna caiff y chwilod ddewis rhwng y boncyffion uchaf a'r rhai sydd wedi'u claddu. Perffaith!

rspb yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Nick Cunard (rspb-images.com).